ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asesiadau personol

## Canllawiau i ymarferwyr ar adborth dysgwyr unigol ac adroddiadau cynnydd

2024 i 2025

WG50407

# Deall adroddiadau adborth dysgwyr unigol a chynnydd dysgwyr o Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol), Rhifedd (Rhesymu) a Darllen

Mae'r canllawiau hyn yn tynnu sylw at rai pwyntiau allweddol a allai fod o gymorth i ymarferwyr wrth ystyried a defnyddio adborth ac adroddiadau dysgwyr i gefnogi dysgu, addysgu a chynllunio dilyniant.

Mae hefyd yn nodi pa adroddiadau y dylid eu rhannu â rhieni a gofalwyr, ac yn ateb cwestiynau a allai fod gan rieni a gofalwyr.

## Diben yr asesiadau personol

Nod yr asesiadau personol yw helpu ymarferwyr a dysgwyr i ddeall sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr yn datblygu, ac o ddeall hynny maen nhw’n helpu i gynllunio'r camau nesaf. Eu bwriad yw cefnogi dysgu, addysgu a chynllunio cynnydd.

Maen nhw’n darparu gwybodaeth am sgiliau rhifedd a darllen, ac mae'n bosibl eu defnyddio mewn ystod o ddulliau asesu i gefnogi dealltwriaeth a datblygiad y sgiliau hynny fel rhan o becyn adnoddau ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

## Beth mae’r asesiadau personol yn ei gynnwys

Mewn asesiadau personol neu 'addasol' mae'r cwestiynau a thestunau (ar gyfer yr asesiad Darllen) a gaiff eu gofyn wedi'u seilio ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Bydd dysgwr sy'n ateb cwestiynau'n gywir yn derbyn cwestiynau a thestunau sydd ychydig yn fwy heriol. Bydd dysgwr sy'n ateb cwestiynau'n anghywir yn derbyn cwestiynau a thestunau ychydig yn haws. Mae’r broses hon yn parhau hyd nes i’r system asesu gasglu digon o wybodaeth am ymatebion y dysgwr. Mae hyn yn cynnig profiad asesu personol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr.

Dewisir y cwestiynau ar gyfer asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu) o ‘gronfa’ fawr o gwestiynau a gynlluniwyd ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 i 9. Mae Rhifedd (Gweithdrefnol) yn canolbwyntio ar gofio ffeithiau a gweithdrefnau rhifyddol. Mae Rhifedd (Rhesymu) yn canolbwyntio ar gymhwyso'r 'adnoddau' rhifyddol hyn i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Caiff y testunau a'r cwestiynau ar gyfer yr asesiad Darllen eu dewis o 'gronfa' fawr o destunau a chwestiynau. Mae'r asesiadau Darllen yn darparu gwybodaeth am ba mor dda y mae plentyn yn deall testun ac a yw'n gallu llunio safbwynt ar yr hyn y mae'n ei ddarllen.

Mae'r asesiadau'n seiliedig ar y continwwm o sgiliau a nodir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (gweler 'Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd’) sy’n cyd-fynd ag ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

Ar ôl asesu, bydd gan ymarferwyr fynediad at y canlynol:

- adroddiad cynnydd dysgwr unigol ym mhob pwnc

- adroddiad adborth unigol ym mhob pwnc

## Beth mae adroddiadau adborth dysgwyr ar gyfer Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol) yn ei ddweud wrthyf

Mae'r adroddiadau adborth dysgwyr ar gyfer Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol) yn tynnu sylw at gryfderau'r dysgwr fel y dangoswyd mewn asesiad penodol (y cwestiynau mwyaf anodd y gwnaeth eu hateb yn gywir) a'r meysydd y gallai fod angen eu datblygu (rhai o'r cwestiynau y gwnaethan nhw eu hateb yn anghywir). Mae'r datganiadau'n seiliedig ar y continwwm o sgiliau yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (gweler 'Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd'), fel y mesurwyd yn yr asesiad. Mae'r adroddiad yn cyflwyno datganiadau yn ogystal â chwestiwn a thestun enghreifftiol ar gyfer pob datganiad (nid yr un cwestiwn yn union ag y cafodd y dysgwr). Bydd pob adran yn cynnwys hyd at 4 datganiad, er y gallai fod llai na hynny os mai ychydig iawn o gwestiynau a atebodd y dysgwr, er enghraifft os yw'r dysgwr yn hepgor bron bob cwestiwn.

Mae'r disgrifyddion ar waelod yr adroddiad yn cymryd canlyniad terfynol y dysgwr o'r asesiad ac yn ei fapio yn erbyn y gronfa gyflawn o gwestiynau. Mae'r disgrifydd cyntaf yn crynhoi'r sgiliau a gwmpesir gan y cwestiynau yn y gronfa sy'n berthnasol i lefel cyrhaeddiad cyfredol y dysgwr. Mae'r ail ddisgrifydd yn rhoi enghreifftiau sydd fymryn yn anoddach na'r cwestiynau sydd ar lefel cyrhaeddiad cyfredol y dysgwr.

Mae adborth ar sgiliau ar gyfer dysgwyr unigol ar gael ar gyfer Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol) y diwrnod ar ôl cwblhau asesiad. Mae enghreifftiau o adroddiadau adborth dysgwr yn Atodiad 1.

## Beth sy'n digwydd pan fydd dysgwr yn gweithio ar frig y gronfa gwestiynau ar gyfer Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol)

Bydd dysgwyr sy'n gweithio ar frig y gronfa yn derbyn datganiad i ddweud eu bod wedi ateb y cwestiynau ar y lefel uchaf yn gywir ac efallai bydd angen symud ymlaen i gynnwys mwy heriol. Mae'n bwysig nodi bod y datganiad hwn yn berthnasol i'r sgiliau a asesir yn yr asesiad personol penodol hwnnw ac nid yw o reidrwydd yn golygu bod y dysgwr yn gweithio ar y lefel hon ym mhob agwedd ar Rifedd (Gweithdrefnol) neu Ddarllen. Mae canlyniadau'r asesiad yn ffurfio rhan o gyfres o wybodaeth ffurfiannol a fydd gan yr athro neu'r athrawes ac felly ni ddylid eu hystyried na'u defnyddio ar eu pennau eu hunain.

## Beth sy'n digwydd pan fydd dysgwr yn gweithio ar waelod y gronfa gwestiynau mewn Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol)

Bydd dysgwyr sy'n cyflawni ar waelod isaf y gronfa yn cael y cwestiynau hawsaf sydd yn y gronfa. Os nad yw'r dysgwr yn gallu ateb y cwestiynau hawsaf yn y gronfa, dylai'r athro neu'r athrawes feddwl am ffyrdd eraill o asesu sgiliau'r dysgwr a'r meysydd i'w gwella.

## Beth mae'r adroddiad adborth unigol ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) yn ei ddweud wrthyf fel athro neu athrawes

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o asesiad y dysgwr, gan gynnwys ei gyrhaeddiad mewn 4 o'r 5 elfen drawsgwricwlaidd ar gyfer Rhifedd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sef Rhuglder, Rhesymu rhesymegol, Dealltwriaeth gysyniadol a Chymhwysedd strategol.

- Rhuglder: a all dysgwyr weithio'n effeithlon, gan gofio a defnyddio ffeithiau, perthnasoedd a dulliau?
- Rhesymu rhesymegol: a all dysgwyr weithio'n greadigol a hefyd meddwl am eu hatebion? Sut y gallan nhw fod yn siŵr eu bod yn gywir?
- Dealltwriaeth gysyniadol: mae'r cwestiynau hyn yn herio dealltwriaeth dysgwr – pa mor dda y mae'r dysgwr wedi deall yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu?
- Cymhwysedd strategol: pa mor dda y mae dysgwr yn gallu penderfynu pa ddull i'w ddefnyddio.

Sylwer nad yw'n bosibl asesu’r elfen sy’n weddill, sef Cyfathrebu â symbolau, drwy'r asesiadau personol.

Mae'r adroddiad yn cymharu cyrhaeddiad y dysgwr ar draws y 4 elfen hyn, fel y gall athrawon weld unrhyw gryfderau neu feysydd penodol y gallai fod angen eu datblygu ymhellach.

Ar gyfer pob elfen, bydd yr adroddiad yn cael ei ategu gan adnoddau sy'n cynnwys cwestiwn enghreifftiol a fydd ar y lefel fras a gyflawnir gan y dysgwr.

Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gwnaeth y dysgwr ymdopi gyda phob math o gwestiwn, ac a ddefnyddiwyd cliwiau ai peidio. Mae cliwiau’n dangos gwahaniaethu o ran cyrhaeddiad dysgwr: y lleiaf o awgrymiadau y mae'r dysgwr yn eu cyrchu, y lleiaf o gefnogaeth oedd ei hangen arno i gyrraedd yr ateb cywir. Os yn berthnasol, bydd yr adroddiad yn nodi a oes tystiolaeth bod y dysgwr wedi anwybyddu cwestiynau neu symud ymlaen yn gyflym iawn. Mae adroddiad enghreifftiol ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) yn Atodiad 1.

## Sut i ddefnyddio'r adroddiad adborth dysgwyr ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) gyda dysgwyr

Ar gyfer Rhifedd (Rhesymu), mae adroddiad adborth ar gael i'r athro neu’r athrawes y diwrnod ar ôl i asesiad gael ei gwblhau. Dylai'r adroddiad hwn gael ei gyfryngu gan athrawon. Mae’n rhoi gwybodaeth am gynnydd y dysgwr mewn meysydd Rhifedd (Rhesymu) allweddol a chaiff ei gysylltu â deunyddiau enghreifftiol Rhifedd (Rhesymu) y gall yr athro neu’r athrawes eu defnyddio i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau rhesymu naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Gall yr athro neu’r athrawes ddewis trafod cynnwys yr adroddiad hwn gyda dysgwr, ac am y rheswm hwn mae'r iaith yn yr adroddiad wedi'i chyfeirio at y dysgwr gan ddefnyddio datganiadau 'chi’.

Nid oes angen rhannu'r adroddiad â rhieni a gofalwyr ac nid yw ar gael i'w ryddhau i'r dysgwr.

Mae'r cylch (marciwr) ar gyfer pob elfen o resymu rhifiadol ar y siart yn cael ei ategu gan gwestiwn enghreifftiol a gweithgareddau awgrymedig drwy hyperddolen. Mae'r cwestiwn yn cyfateb i'r lefel fras o hyfedredd a gyflawnir gan y dysgwr yn yr elfen honno. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod y cwestiynau enghreifftiol a'r gweithgareddau awgrymedig yn cwmpasu'r continwwm llawn o her ac anhawster, ac felly dylai eu priodoldeb ar gyfer dysgwyr neu grwpiau unigol gael eu hasesu gan athrawon cyn eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ogystal â chwestiynau enghreifftiol ceir dulliau enghreifftiol, gyda thestun esboniadol, a gwybodaeth am wallau cyffredin a chamsyniadau.

Er mwyn adeiladu ar y dysgu o'r asesiad ac o'r cwestiwn enghreifftiol, mae dau weithgaredd dosbarth awgrymedig wedi'u cynnwys. Gellir defnyddio'r rhain gyda dysgwyr unigol, grwpiau bach neu'r dosbarth cyfan. Cefnogir y gweithgareddau gyda thestun ategol i'r athro neu'r athrawes sy'n cynnig ffyrdd o herio dysgwyr, atebion ac yn nodi'r sgiliau yr ymdrinnir â hwy yn y gweithgaredd.

Gellir cael gafael ar yr un adnoddau drwy'r adroddiad proffil sgiliau grŵp hefyd.

Ceir hefyd ganllaw byr ar ddefnyddio'r cwestiynau enghreifftiol a'r gweithgareddau awgrymedig i gefnogi cynnydd drwy ddolen yn yr adroddiad.

Efallai y bydd athrawon am ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddechrau sgwrs gyda'r dysgwyr yn eu dosbarth ac i archwilio'r camau nesaf i ddatblygu eu sgiliau rhesymu. Gall yr athro neu'r athrawes ddefnyddio'r cwestiynau enghreifftiol a'r gweithgareddau cysylltiedig i ddatblygu gweithgareddau unigol neu grŵp sy'n cefnogi ac yn ymestyn y dysgu.

## Beth mae adroddiad cynnydd y dysgwr yn ei ddweud wrthyf

Yn ogystal â'r adborth ar sgiliau, mae adroddiadau dysgwyr unigol ar gynnydd ar gael y diwrnod ar ôl i bob asesiad gael ei gymryd. Mae'r rhain yn dangos y sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer yr asesiad diweddaraf. Cyfrifir y sgôr safonedig ar sail oedran drwy gymharu sgôr asesu dysgwr unigol â sgoriau dysgwyr eraill yng Nghymru a anwyd yn yr un flwyddyn a mis. Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifo sgoriau safonedig ar sail oedran wedi'i chynnwys isod. Ceir enghreifftiau o adroddiadau cynnydd dysgwyr yn Atodiad 2.

Ar gyfer asesiadau a wnaed o fis Medi 2023, mae sgoriau cynnydd a sgoriau safonedig ar sail oedran yn ystyried 'amser dysgu' trwy gymharu sgoriau asesu dysgwyr â sgoriau dysgwyr eraill yn eu grŵp blwyddyn a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg yn y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn helpu i gefnogi gwell dealltwriaeth o gynnydd o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Mae adroddiad cynnydd dysgwr yn defnyddio'r data o'r asesiadau a gynhaliwyd hyd yma i lunio darlun o gynnydd y dysgwr dros amser.

## Adroddiad cynnydd dysgwr, adran 1

Mae'r siart yn cynnwys yr holl asesiadau ar-lein y mae'r dysgwr wedi'u cwblhau hyd yma. Mae'r sgôr cynnydd (y gwerth y tu ôl i'r symbol ar gyfer pob asesiad a farciwyd ar y siart) yn sgôr safonedig. Caiff ei chyfrifo drwy gymharu canlyniad y dysgwr unigol â chanlyniadau ar gyfer dysgwyr eraill yn ei grŵp blwyddyn yng Nghymru a wnaeth asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn. 950 i 1050 yw'r ystod sgoriau a 1000 yw'r cyfartaledd (a ddangosir gan y llinell doredig ar y siart). Mae'r sgôr hon ar gael i ysgolion a chaiff ei rhestru mewn adroddiadau grŵp.

Mae'r llinellau dotiog yn dangos ystod arferol y dysgwr, yn seiliedig ar yr asesiadau a gwblhawyd hyd yma. Gall yr ystod gynyddu neu ostwng dros amser wrth i ddata ddod i law ar fwy o asesiadau a gwblhawyd gan bob dysgwr. Gall safle dysgwr ar y siart amrywio o un asesiad i'r llall am sawl rheswm, er enghraifft os nad yw'n gwneud cystal â'r disgwyl mewn un asesiad yn gynnar yn y flwyddyn ac mae ei asesiad nesaf yn rhoi sgôr sylweddol uwch, gall ymddangos fel petai'n gwneud mwy o gynnydd cadarnhaol o'i gymharu â dysgwyr eraill.

## Adroddiad cynnydd dysgwr, adran 2

Y sgôr safonedig ar sail oedran a gofnodwyd ar gyfer asesiad diweddaraf y dysgwr sy'n cael ei rhoi yma. Caiff y sgôr safonedig ar sail oedran ei chyfrifo drwy gymharu sgôr asesiad dysgwr â sgoriau disgyblion eraill yng Nghymru a anwyd yn yr un mis a'r un flwyddyn ac a wnaeth asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn.

70 i 130 yw'r ystod sgoriau a 100 yw'r cyfartaledd.

## Pryd y cynhaliwyd y broses safoni ar gyfer pob asesiad

Cynhaliwyd yr ail-safoni ar gyfer pob asesiad yn haf 2023 gan ddefnyddio'r data asesu ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.

Ar gyfer asesiadau a wnaed o fis Medi 2023, mae'r sgoriau cynnydd a'r sgoriau safonedig ar sail oedran yn ystyried 'amser dysgu' trwy gymharu sgoriau asesu dysgwyr â sgoriau dysgwyr eraill yn eu grŵp blwyddyn a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg yn y flwyddyn academaidd.

Mae'n bwysig nodi bod yr asesiadau at ddefnydd ffurfiannol er mwyn i athrawon ym mhob ysgol a gynhelir gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr, a dealltwriaeth gyffredin o'u cryfderau a'r meysydd i'w gwella o ran y sgiliau hynny. Wrth gynllunio dilyniant, anogir athrawon i roi ystyriaeth lawn i'r sgiliau a nodwyd gan yr asesiadau (nid y sgoriau yn unig), ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r asesiadau'n cynnig dull asesu sy'n canolbwyntio ar ddeall cynnydd a sgiliau dysgwyr, ac ni ddylid eu defnyddio at ddibenion perfformiad ysgol nac atebolrwydd. Bellach, nid oes gofyn i ysgolion adrodd am ddeilliannau'r asesiadau i'w hawdurdod lleol perthnasol.

## Adroddiadau grŵp sydd ar gael i ymarferwyr

Yn ogystal ag adroddiadau adborth a chynnydd dysgwr unigol, a'r adnoddau a'r gweithgareddau ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) a ddisgrifir uchod, atgoffir ymarferwyr bod yr adroddiadau grŵp canlynol hefyd ar gael ar gyfer pob pwnc:

- proffil sgiliau grŵp (elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd)
- proffil grŵp (diagram gwasgariad)
- llwybrau dysgwyr
- adroddiad cynnydd grŵp
- proffil sgiliau grŵp (dadansoddiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu at y dyfodol – Darllen a Rhifedd Gweithdrefnol yn unig)

Gall ymarferwyr addasu'r adroddiadau hyn, er enghraifft drwy ddewis cyfnod o amser a naill ai dewis yr unigolion y maen nhw am eu gweld mewn adroddiad grŵp, dosbarthiadau cyfan neu grwpiau blwyddyn. Er enghraifft, gellir creu adroddiad i adlewyrchu grwpiau o ddysgwyr â gallu gwahanol o fewn y dosbarth neu gall athrawon ddewis dysgwyr y maen nhw'n gwybod eu bod yn fwy abl a thalentog neu'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Ceir rhagor o wybodaeth ar sut i wneud hyn yn y canllaw i ddefnyddwyr ar y wefan asesiadau.

Mae pob adroddiad yn cynnwys ystod o wybodaeth ar gyfer y grŵp, gan gynnwys sgoriau safonedig ar sail oedran a sgoriau cynnydd. Ar gyfer Rhifedd (Rhesymu), mae'r proffil sgiliau grŵp yn cynnwys dolenni i adnoddau i helpu i gefnogi datblygiad sgiliau rhesymu rhifyddol. Gall athrawon ddefnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer gweithgareddau i grŵp neu i ddysgwyr unigol.

## Cwestiynau enghreifftiol

Gellir gweld cwestiynau enghreifftiol sy'n berthnasol i bob datganiad sgiliau a restrir yn adborth dysgwr ar gyfer Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol) drwy glicio ar y botwm 'PDF cwestiynau enghreifftiol' pan fydd yn mewngofnodi i'w gyfrif Hwb. Mae'r cwestiynau enghreifftiol hyn, sy'n debyg i'r cwestiynau y mae'r dysgwyr yn eu derbyn yn yr asesiadau (ond nid yn union yr un fath), hefyd ar gael ar Hwb. Mae cwestiynau enghreifftiol ar gael ar gyfer:

- **Rhifedd (Gweithdrefnol)**
  (gweler 'Cwestiynau enghreifftiol Rhifedd (Gweithdrefnol)')

- **Darllen (Cymraeg)**
  (gweler 'Cwestiynau enghreifftiol Darllen (Cymraeg)')

- **Darllen (Saesneg)**
  (gweler 'Cwestiynau enghreifftiol Darllen (Saesneg)')

Mae cwestiynau enghreifftiol a gweithgareddau dosbarth ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) ar gael drwy'r dolenni yn adborth unigol dysgwyr a hefyd yn y proffil sgiliau grŵp. Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i athrawon eu defnyddio ar ôl asesiad i gefnogi cynnydd mewn sgiliau rhesymu.

## Ni ddylid defnyddio’r cwestiynau enghreifftiol i ymarfer

Diben y cwestiynau enghreifftiol ar gyfer Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol) yw helpu dysgwyr, athrawon, rhieni a gofalwyr ddeall pa feysydd o’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd y mae gan ddysgwyr gryfderau ynddyn nhw a’r meysydd y gellir eu gwella. Yn dilyn asesiad Rhifedd (Rhesymu), mae gan athrawon fynediad at adnoddau, gan gynnwys cwestiynau enghreifftiol a gweithgareddau, y gallan nhw eu defnyddio i gefnogi datblygiad sgiliau. Diben yr asesiadau yw darparu gwybodaeth am sgiliau dysgwyr er mwyn cefnogi cynnydd, ac felly mae 'ymarfer' cyn cymryd yr asesiadau yn ddiangen, ac ni fwriedir i’r cwestiynau enghreifftiol gael eu defnyddio at y diben hwn.

## Rhannu adroddiadau â dysgwyr

Dylid rhannu'r adroddiadau canlynol â dysgwyr:

- adroddiad cynnydd dysgwyr unigol ym mhob pwnc
- adroddiad adborth ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen (mae adborth ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) yn cael ei hwyluso gan athrawon ac mae'n gysylltiedig ag adnoddau i gefnogi datblygu sgiliau)

Yn dilyn asesiad, gall athrawon weld yr adroddiadau ac yna eu rhyddhau i gyfrif Hwb y dysgwr drwy system yr asesiadau personol. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud hyn, gweler adrannau 5.3 a 5.4 yn y canllaw i ddefnyddwyr. Rydym yn annog ysgolion i rannu'r rhain pan fyddan nhw’n gyfredol o hyd.

## Rhannu adroddiadau gyda rhieni a gofalwyr

Mae Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 ("adroddiadau diwedd blwyddyn") yn ei gwneud yn ofynnol i sylwadau cryno ar ganlyniadau'r asesiadau gael eu cynnwys yn yr adroddiad diwedd blwyddyn i rieni a gofalwyr.

Rydym yn cynghori'n gryf bod y sylwadau yn adroddiad diwedd y flwyddyn yn cynnwys yr adroddiadau canlynol ("adroddiadau asesiad personol"):

- yr adroddiad cynnydd dysgwr unigol ym mhob pwnc
- yr adroddiad adborth ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen (mae adborth ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) yn cael ei hwyluso gan athrawon ac mae'n gysylltiedig ag adnoddau i gefnogi datblygu sgiliau)

Mae'r gofyniad i ddarparu adroddiad diwedd blwyddyn yn ysgrifenedig i rieni a gofalwyr yn fandadol. Yn ogystal â hynny, argymhellir y dylai ysgolion rannu adroddiadau’r asesiadau personol gyda rhieni a gofalwyr pan fydd yr wybodaeth yn gyfredol. Bydd athrawon a phenaethiaid yn defnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu ar yr adeg a'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer rhannu adborth ac adroddiadau, er enghraifft:

- ar sgrin mewn noson i rieni yng nghyd-destun gwybodaeth arall am gynnydd y dysgwr
- wedi'u hargraffu a'u rhannu ar ddiwedd y tymor

Os caiff asesiadau eu cynnal ddwywaith mewn blwyddyn academaidd, dylai rhieni a gofalwyr dderbyn y ddwy set o adborth.

Mae dau animeiddiad ar gael ar gyfer rhieni a gofalwyr (gweler animeiddiadau ar asesiadau personol i rieni a gofalwyr), sy'n rhoi cyflwyniad i'r asesiadau ac yn egluro'r adborth a'r adroddiadau. Anogir ysgolion i rannu'r animeddiadau ar eu tudalennau gwe a'u sianeli cyfathrebu.

Dylid ystyried sut y rhoddir adborth i ddysgwyr a rhieni neu ofalwyr nad oes ganddyn nhw ddyfais y tu allan i amgylchedd yr ysgol – sy'n fwy tebygol o fod yn wir am y rheini o aelwydydd incwm is.

Os bydd ysgolion am argraffu copïau o adborth dysgwyr unigol neu adroddiadau cynnydd, dewiswch 'argraffu' yn y porwr a'i argraffu'n uniongyrchol. Mae cyfleuster hefyd ar gael ar y wefan asesiadau i argraffu adroddiadau ar gyfer mwy nag un dysgwr. Ceir rhagor o wybodaeth ar sut i wneud hyn yn y canllaw i ddefnyddwyr ar y wefan asesiadau.

## Cefnogi rhieni a gofalwyr i ddehongli adroddiadau asesiadau personol

Mae'n bosibl nad yw rhai rhieni a gofalwyr wedi arfer â dehongli'r adroddiadau, ond mae'n bwysig eu bod nhw'n gallu deall yr wybodaeth a roddir iddyn nhw am eu plentyn a beth mae'n ei olygu i addysg a chynnydd eu plentyn.

Pan gaiff rhieni a gofalwyr gopi o adroddiad cynnydd eu plentyn, gellir rhoi copi o'r canlynol iddyn nhw hefyd:

- **Rhifedd (Gweithdrefnol)** (gweler 'Adroddiad cynnydd asesiad personol – Rhifedd (Gweithdrefnol): Gwybodaeth i rieni a gofalwyr')
- **Rhifedd (Rhesymu)** (gweler 'Adroddiad cynnydd asesiad personol – Rhifedd (Rhesymu): Gwybodaeth i rieni a gofalwyr')
- **Darllen** (gweler 'Adroddiad cynnydd asesiad personol – Darllen: Gwybodaeth i rieni a gofalwyr')

Pan fydd rhieni a gofalwyr yn cael copi o adroddiad adborth eu plentyn, gellir rhoi copi o'r canlynol i rieni a gofalwyr hefyd i'w helpu i ddehongli'r adborth hwnnw:

- **Darllen** (gweler 'Adborth asesiad personol – Darllen: Gwybodaeth i rieni a gofalwyr')
- **Rhifedd (Gweithdrefnol)** (gweler 'Adborth asesiad personol – Rhifedd (Gweithdrefnol): Gwybodaeth i rieni a gofalwyr')

Nid yw'r adroddiad ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) wedi'i gynllunio i'w gyhoeddi'n uniongyrchol i rieni a gofalwyr. Y rheswm am hynny yw oherwydd bod yr adroddiadau'n cynnwys terminoleg sy'n heriol i'w deall a'i dehongli heb gymorth, a hefyd oherwydd bod yr adroddiadau'n cynnwys dolenni at adnoddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer athrawon i'w dewis neu eu haddasu ar gyfer eu dysgwyr.

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol cyfeirio rhieni a gofalwyr at ganllawiau ar asesiadau personol ar-lein a gynhyrchwyd i gynorthwyo dehongli a darparu gwybodaeth ar yr adroddiadau.

## Y gwahaniaeth rhwng barn athrawon ynghylch asesiadau ac adborth dysgwyr am eu hasesiadau

Mae barn athrawon ynghylch asesiadau yn deillio o sylfaen dystiolaeth fawr dros amser. Gallan nhw ystyried sgiliau'r dysgwr yn ystod sesiynau arsylwi, gwaith llafar, trafodaeth yn y dosbarth, tasgau a phrosiectau estynedig a gwaith grŵp, er enghraifft. Mae adborth dysgwyr am eu hasesiadau yn cynnig cipolwg o sgiliau'r dysgwr ar yr adeg y cynhaliwyd yr asesiad hwnnw. Bydd athrawon yn ystyried yr adborth hwn law yn llaw â gwybodaeth arall sydd ganddyn nhw am sgiliau dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, er mwyn cynllunio eu dysgu. Mae'r ddau fath o asesiad yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ond gwahanol.

## Pan fydd adborth dysgwyr am eu hasesiad i'w weld yn gwrthddweud barn athrawon ynghylch asesiad

Gall mathau gwahanol o asesiadau a ddefnyddir roi adborth gwahanol. Gall fod sawl rheswm am hyn, ac felly mae angen dehongli'r adborth yn ofalus. Mae defnyddio canlyniadau asesiadau gwahanol yn gallu codi cwestiynau pwysig a helpu i gael darlun cliriach o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Os yw'r adborth ynghylch asesiad yn awgrymu nad yw'r dysgwr wedi dangos yr holl sgiliau mae'n eu dangos yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth, yna gallai hyn fod am nad yw'n dangos ei waith gorau mewn cyd-destun asesu bob amser. Mae gan bob math o asesiadau gyfyngiadau a dyna pam mae arferion gorau wrth asesu yn manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd asesu gwahanol.

## Pam nad yw dysgwyr wedi cael adborth ynghylch eu hasesiadau neu adroddiad cynnydd ar gyfer 2019 i 2020 a 2020 i 2021?

Yn ystod blwyddyn ysgol 2019 i 2020, nid oedd rhai ysgolion wedi defnyddio'r asesiadau personol cyn i ysgolion gau o ganlyniad i'r pandemig yng ngwanwyn 2020.

Yn ystod blwyddyn ysgol 2020 i 2021, roedd yr asesiadau personol ar sail 'ymdrechion rhesymol'. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ysgolion wneud eu hymdrechion gorau i ddefnyddio'r asesiadau lle bo'n bosibl i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd yn eu sgiliau darllen a rhifedd. Fodd bynnag, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion lunio barn broffesiynol ar les dysgwyr unigol ar ôl iddyn nhw ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth, gan gydnabod hefyd bod ysgolion yn wynebu heriau ymarferol a logistaidd wrth drefnu asesiadau.

Felly ni fydd rhai dysgwyr wedi cymryd asesiadau yn ystod 2019 i 2020 a 2020 i 2021, ac ni fydd adborth na chynnydd wedi'u dangos ar gyfer y cyfnodau hyn.

## Cymorth i ymarferwyr

Mae'r llawlyfr gweinyddu’r asesiadau a chanllawiau eraill ar gael ar Hwb (gweler Canllawiau i ysgolion).

Mae canllaw i ddefnyddwyr ar amserlennu a hwyluso'r asesiadau, fideos hyfforddi a gweminarau hyfforddi a recordiwyd ymlaen llaw ar ddefnyddio adroddiadau adborth a chynnydd hefyd ar gael ar y wefan asesu wrth fewngofnodi i Hwb.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr asesiadau personol, cysylltwch â’r ddesg gymorth (ffôn: 029 2026 5099, e-bost: cymorth@asesiadaupersonol.cymru).

# Atodiad 1: Enghraifft o adborth dysgwr – Rhifedd (Gweithdrefnol)

Cymraeg | English

Ysgol Enghreifftiol

## Asesiad personol — Rhifedd (Gweithdrefnol)

Adborth i **Dysgwr Enghreifftiol 1, Blwyddyn 5**

Dysgwr Enghreifftiol 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae'r adborth hwn wedi'i seilio ar yr asesiad a wnaed ar 10/08/2022.**

### Y cwestiynau mwyaf anodd ges i'n gywir oedd ar y sgiliau hyn:

| | |
|---|---|
| lluosi a rhannu rhifau â 10 (atebion rhif cyfan) | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |
| adio neu dynnu rhifau un digid i/oddi wrth rifau mwy | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |
| canfod hyd, pwysau/màs neu gynhwysedd drwy ddarllen graddfeydd syml | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |
| adio neu dynnu rhifau 2 ddigid (cyfrifiadau syml) | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |

### Roedd rhai o'r cwestiynau ges i'n anghywir ar y sgiliau hyn:

| | |
|---|---|
| dehongli gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn diagramau syml (e.e. siartiau bloc) gydag 1 symbol yn cynrychioli 1 uned | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |
| dehongli gwybodaeth syml wedi'i chyflwyno mewn rhestrau, tablau neu siartiau cyfrif/tali | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |
| dehongli gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn pictogramau (1 symbol yn cynrychioli mwy nag 1 uned) | Cwestiwn enghreifftiol (PDF) |

Gall eich athrawon eich helpu i ddeall yr adborth a'ch camau nesaf.

### Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â sgiliau tebyg yn gallu:

- deall gwerth lle ar gyfer rhifau cyfan hyd at 1000, a gallu adio neu dynnu rhifau 2 ddigid
- gwybodaeth am dablau yn ymestyn i dablau 3 a 4, a gallu datrys problemau syml sy'n ymwneud ag arian (hyd at £1)
- defnyddio calendr a chyfrifo perimedr siapiau sy'n dangos hyd pob ochr/arwynebedd siapiau sy'n dangos sgwariau mewnol
- dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn pictogramau (1 symbol yn cynrychioli mwy nag 1 uned)

### Ac maen nhw'n debygol o symud ymlaen i wneud hyn:

- adio neu dynnu rhifau 2 a 3 digid, lluosi a rhannu rhifau â 10 (atebion rhif cyfan) a chyfrifo ffracsiynau uned, fel 1/3 o rif
- deall sut i 'ddad-wneud' adio, tynnu, lluosi neu rannu, a gallu cyfrifo cyfwng amser syml
- cyfrifo perimedr siapiau syml (nad ydynt yn dangos hyd pob ochr) a dehongli gwybodaeth syml a gyflwynir mewn tablau neu ddiagramau Venn

**hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Enghraifft o adborth dysgwr – Darllen Cymraeg

**Cymraeg** | English

Ysgol enghreifftiol

## Asesiad personol — Darllen Cymraeg

Adborth i **Learner 4/Dysgwr 4, Blwyddyn 2**

4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae'r adborth hwn wedi'i seilio ar yr asesiad a wnaed ar 01/09/2023.**

### Y cwestiynau mwyaf anodd ges i'n gywir oedd ar y sgiliau hyn:

- dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)
- deall bod testunau'n newid pan fyddan nhw wedi'u haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)
- nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)
- defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)

### Roedd rhai o'r cwestiynau ges i'n anghywir ar y sgiliau hyn:

- nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)
- defnyddio cliwiau gweledol er mwyn gwella dealltwriaeth — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)
- llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion mewn testunau — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)
- cipddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn testun — Cwestiwn enghreifftiol (PDF)

Gall eich athrawon eich helpu i ddeall yr adborth a'ch camau nesaf.

### Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd â sgiliau tebyg yn gallu:

- cipddarllen (sgimio) i gael trosolwg
- galw ar wybodaeth am y cyd-destun i gefnogi dealltwriaeth
- diddwytho syniadau i wneud cysylltiadau o fewn testun

### Ac maen nhw'n debygol o symud ymlaen i wneud hyn:

- cipddarllen (sgimio) i ganfod y prif syniadau a'r themâu
- canfod y prif bwyntiau mewn testun
- diddwytho syniadau drwy gysylltu gosodiadau
- archwilio gwybodaeth anghyfarwydd
- dethol gwybodaeth o destunau a'i defnyddio at bwrpas penodol

hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Enghraifft o adborth dysgwr – Rhifedd (Rhesymu)

Noder: Fel yr esboniwyd yn y testun uchod, nid yw'r adroddiad adborth Rhifedd (Rhesymu) i'w rannu gyda rhieni neu ofalwyr yn uniongyrchol.

Cymraeg | English

Cafodd yr asesiad diwethaf ei wneud yn: Ysgol Enghreifftiol

Asesiad personol — Rhifedd (Rhesymu)

**Adborth i athrawon** ar gyfer Dysgwr Enghreifftiol, Blwyddyn 4

Dysgwr Enghreifftiol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae'r adborth hwn yn rhoi gwybodaeth i'r athrawon i'w cefnogi i ddatblygu sgiliau rhesymu rhifiadol y dysgwr. Gallwch ddewis dangos yr adroddiad i gyd neu rannau ohono i'r dysgwr, ac felly mae'r gosodiadau allweddol wedi'u geirio i gyfarch y dysgwr yn uniongyrchol.**

**Mae'r adborth yn seiliedig ar yr asesiad a wnaed ar 01/12/2021.**

## Cynnwys rhesymu:

Mae'r asesiad yn ymdrin â phedwar sgìl rhesymu. Mae eich atebion yn yr asesiad yn dangos:

- bod gennych chi sgiliau uwch o ran rhesymu rhesymegol.
- bod eich sgiliau ar lefel is o ran cymhwysedd strategol. Efallai y bydd eich athro neu'ch athrawes yn penderfynu gweithio ar hyn gyda chi.

| | Dealltwriaeth gysyniadol | Rhesymu rhesymegol | Rhuglder | Cymhwysedd strategol |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau uwch | | ● | | |
| Eich cyfartaledd | ● | | ● | |
| Sgiliau ar lefel is | | | | ● |

Cliciwch ar y cylchoedd i weld cwestiwn enghreifftiol ar gyfer y sgìl hwnnw.

**Dealltwriaeth gysyniadol:**

Mae'r cwestiynau hyn yn archwilio eich dealltwriaeth: pa mor dda ydych chi'n deall yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu?

**Rhesymu rhesymegol:**

Mae angen ichi weithio'n greadigol a meddwl am eich atebion hefyd: sut allwch chi fod yn siŵr eu bod nhw'n gywir?

**Rhuglder:**

Allwch chi weithio'n effeithlon, gan gofio a defnyddio ffeithiau, perthnasoedd a dulliau?

**Cymhwysedd strategol:**

Nid yw'r dull yn cael ei roi – allwch chi benderfynu eich hun beth i'w wneud a sut i fynd ati?

## Mathau o gwestiynau:

Mae dau fath o gwestiwn yn yr asesiad: cwestiynau 1 marc a chwestiynau gyda chliwiau.

- Roedd eich cyrhaeddiad yn y ddau fath o gwestiwn yn debyg.

## Defnyddio'r cliwiau:

Roedd 5 o gwestiynau gyda chliwiau.

- Ateboch chi 3 o gwestiynau yn gywir:
  - Ateboch chi 2 o gwestiynau heb fod angen unrhyw gliwiau.
  - Ateboch chi 1 cwestiwn ar ôl cael 1 cliw.
- Wnaethoch chi ddim ateb 2 o gwestiynau yn gywir:
  - Ateboch chi 2 o gwestiynau yn anghywir ar ôl cael y cliwiau.

**Mae canllawiau pellach ar gael i athrawon o ran sut i ddefnyddio'r adroddiad hwn a'r cwestiynau enghreifftiol.**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Atodiad 2: Enghraifft o adroddiad cynnydd dysgwr – Rhifedd (Gweithdrefnol)

Cymraeg | English

Gwnaed yr asesiad diwethaf yn: Ysgol Enghreifftiol

## Adroddiad ar gynnydd dysgwr — Rhifedd (Gweithdrefnol)

Adroddiad cynnydd **Dysgwr Enghreifftiol, Blwyddyn 7**


Dysgwr Enghreifftiol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar yr asesiadau a wnaed 08/10/2019 a 30/06/2024.**

### 1. Cynnydd

Mae hyn yn defnyddio'r wybodaeth o fy asesiadau i i ddangos fy safle i o gymharu â'r holl ddysgwyr eraill yng Nghymru sydd yn fy ngrŵp blwyddyn i ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi.




● **Mae'r smotyn du yn dangos fy asesiad mwyaf diweddar.**

**Y tri band yw ystod holl ddisgyblion Cymru sydd yn fy ngrŵp blwyddyn i wrth iddynt fynd drwy'r ysgol. Mae tua dau draean o'r holl ddisgyblion yn fy ngrŵp blwyddyn i yn gweithio o fewn yr ystod a ddangosir gan y band mawr yn y canol.**

...... **Mae'r llinellau dotiog yn dangos fy ystod debygol i, ar sail fy asesiadau hyd yn hyn.**

- - - **Mae'r llinell doredig yn dangos y cyfartaledd ar gyfer fy ngrŵp blwyddyn i ar draws Cymru.**

Mae gwybodaeth am y cwestiynau anoddaf ges i'n gywir yn fy asesiad mwyaf diweddar a rhai o'r cwestiynau ges i'n anghywir, ynghyd â fy nghamau nesaf, ar gael yn fy adborth wrth imi fewngofnodi i Hwb.
Mae'r adborth hwn yn rhoi cipolwg ar fy sgiliau adeg sefyll yr asesiad. Dim ond un ffynhonnell ydyw am fy ngwybodaeth a fy nealltwriaeth gyffredinol ym maes Rhifedd (Gweithdrefnol).

### 2. Sgôr safonedig ar sail oedran

Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy gymharu sgôr fy asesiad i â sgoriau'r holl ddysgwyr eraill a gafodd eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis â fi ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi. Ystod y sgôr yw 70–130 a'r cyfartaledd yw 100. Os yw fy sgôr safonedig ar sail oedran yn uchel iawn, gallai hynny gael ei ddangos fel 'mwy na 130' (130+). Os yw fy sgiliau'n datblygu'n arafach, gallai fy sgôr fod yn 'llai na 70' (<70). Dim ond un darn o wybodaeth yw sgôr asesiad personol i ddangos sut mae fy sgiliau'n datblygu.
Yn fy asesiad mwyaf diweddar, ces i sgôr safonedig ar sail oedran o: 107

**hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Enghraifft o adroddiad cynnydd dysgwr – Darllen Cymraeg

**Cymraeg** | English

Gwnaed yr asesiad diwethaf yn: Ysgol Enghreifftiol

## Adroddiad ar gynnydd dysgwr — Darllen Cymraeg

Adroddiad cynnydd **Dysgwr Enghreifftiol, Blwyddyn 7**


Dysgwr Enghreifftiol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar yr asesiadau a wnaed 30/09/2020 a 03/06/2025.**

### 1. Cynnydd

Mae hyn yn defnyddio'r wybodaeth o fy asesiadau i i ddangos fy safle i o gymharu â'r holl ddysgwyr eraill yng Nghymru sydd yn fy ngrŵp blwyddyn i ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi.




● **Mae'r smotyn du yn dangos fy asesiad mwyaf diweddar.**

**Y tri band yw ystod sgoriau pob dysgwr yng Nghymru. Mae tua dau draean o'r dysgwyr yn y grŵp blwyddyn hwn yn gweithio o fewn yr ystod a ddangosir gan y band mawr yn y canol.**

...... **Mae'r llinellau dotiog yn dangos fy ystod debygol i, ar sail fy asesiadau hyd yn hyn.**

- - - **Mae'r llinell doredig yn dangos cyfartaledd yr holl ddysgwyr yng Nghymru.**

Mae gwybodaeth am y cwestiynau anoddaf ges i'n gywir yn fy asesiad mwyaf diweddar a rhai o'r cwestiynau ges i'n anghywir, ynghyd â fy nghamau nesaf, ar gael yn fy adborth wrth imi fewngofnodi i Hwb.
Mae'r adborth hwn yn rhoi cipolwg ar fy sgiliau adeg sefyll yr asesiad. Dim ond un ffynhonnell ydyw am fy ngwybodaeth a fy nealltwriaeth gyffredinol ym maes Darllen Cymraeg.

### 2. Sgôr safonedig ar sail oedran

Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy gymharu sgôr fy asesiad i â sgoriau'r holl ddysgwyr eraill a gafodd eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis â fi ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi. Ystod y sgôr yw 70–130 a'r cyfartaledd yw 100. Os yw fy sgôr safonedig ar sail oedran yn uchel iawn, gallai hynny gael ei ddangos fel 'mwy na 130' (130+). Os yw fy sgiliau'n datblygu'n arafach, gallai fy sgôr fod yn 'llai na 70' (<70). Dim ond un darn o wybodaeth yw sgôr asesiad personol i ddangos sut mae fy sgiliau'n datblygu.
Yn fy asesiad mwyaf diweddar, ces i sgôr safonedig ar sail oedran o: 105

**hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Enghraifft o adroddiad cynnydd dysgwr – Rhifedd (Rhesymu)

**Cymraeg** | English

Gwnaed yr asesiad diwethaf yn: Ysgol Enghreifftiol

## Adroddiad ar gynnydd dysgwr — Rhifedd (Rhesymu)

Adroddiad cynnydd **Dysgwr Enghreifftiol, Blwyddyn 7**


Dysgwr Enghreifftiol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar yr asesiadau a wnaed 20/11/2021 a 21/05/2026.**

### 1. Cynnydd

Mae hyn yn defnyddio'r wybodaeth o fy asesiadau i i ddangos fy safle i o gymharu â'r holl ddysgwyr eraill yng Nghymru sydd yn fy ngrŵp blwyddyn i ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi.




- ● **Mae'r smotyn du yn dangos fy asesiad mwyaf diweddar.**
- **Y tri band yw ystod sgoriau pob dysgwr yng Nghymru. Mae tua dau draean o'r dysgwyr yn y grŵp blwyddyn hwn yn gweithio o fewn yr ystod a ddangosir gan y band mawr yn y canol.**
- ...... **Mae'r llinellau dotiog yn dangos fy ystod debygol i, ar sail fy asesiadau hyd yn hyn.**
- - - - **Mae'r llinell doredig yn dangos cyfartaledd yr holl ddysgwyr yng Nghymru.**

Mae'r adborth hwn yn rhoi cipolwg ar fy sgiliau adeg sefyll yr asesiad. Dim ond un ffynhonnell ydyw am fy ngwybodaeth a fy nealltwriaeth gyffredinol ym maes Rhifedd (Rhesymu).

### 2. Sgôr safonedig ar sail oedran

Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy gymharu sgôr fy asesiad i â sgoriau'r holl ddysgwyr eraill a gafodd eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis â fi ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi. Ystod y sgôr yw 70–130 a'r cyfartaledd yw 100. Os yw fy sgôr safonedig ar sail oedran yn uchel iawn, gallai hynny gael ei ddangos fel 'mwy na 130' (130+). Os yw fy sgiliau'n datblygu'n arafach, gallai fy sgôr fod yn 'llai na 70' (<70). Dim ond un darn o wybodaeth yw sgôr asesiad personol i ddangos sut mae fy sgiliau'n datblygu.

Yn fy asesiad mwyaf diweddar, ces i sgôr safonedig ar sail oedran o: 109

**hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

© Hawlfraint y Goron 2024